OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

***Datganiadau achos a darpariaeth atodol***

**Newid cynrychiolydd yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol**

**22.**—(1) Caiff yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol, ar unrhyw adeg, newid ei gynrychiolydd at ddibenion yr apêl neu'r hawliad drwy hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys o enw a chyfeiriad ei gynrychiolydd newydd, ac os ydynt ar gael, rhif teleffon, rhif ffacs a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd.

(2) Rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau at yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol, neu roi hysbysiad iddo, fel pe baent yn gyfeiriadau at anfon dogfennau at, neu roi hysbysiad i'r cynrychiolydd a enwir yn unol â pharagraff (1) neu reoliad 21(3)(b).